

Canlyniadau Pellach

“Chwi seirff ac epil gwiberod, sut y dihangwch rhag barn uffern?” (adn. 33)

Beth am ddarllen Mathew 23:29–39 ac yna myfyrio

Heddiw rydym am ystyried y trydydd a'r pedwerydd casgliad y daeth y criw o weinidogion y bu inni drafod ddoe iddynt wrth ystyried y cwestiwn o uffern. Roeddent yn gytûn ar y trydydd ffactor yma oedd yn esbonio'u hamharodrwydd i bregethu ar y testun, sef eu gofal dros deimladau'r bobl hynny yn eu cynulleidfaoedd oedd wedi colli anwyliaid a hynny heb iddynt adnabod yr Arglwydd Iesu. Bob tro y byddaf yn pregethu ar uffern, rwy'n ymwybodol bod yna gredinwyr sy'n cael anhawster mawr wrth feddwl nid yn unig am rai y maent wedi eu caru sydd wedi marw heb dderbyn Crist ond hefyd eu gofid ynglŷn â'r rhai sy'n dal yn fyw ac eto heb amser o gwbl i Iesu.

Y pedwerydd ffactor oedd y diddordeb sydd yn cael ei ddangos gan lawer o gynulleidfaoedd modern wrth geisio atebion i gwestiynau cyfoes a hyn wedi symud o'r neilltu unrhyw ystyriaeth o'r hyn a ddigwydd ar ôl inni farw. Pan hysbysodd un gweinidog ei flaenoriaid o'i fwriad i bregethu cyfres ar y nefoedd, bu i un ohonynt wneud y sylw: “Nid yw bobl am wybod am y nefoedd, maent am wybod am heddiw a rŵan.” Efallai mai dyma pam y bu i un sy'n arsylwi ar y sefyllfa Gristnogol gyfoes ddweud: “Mae pregethau ar y nefoedd a gobaith tragwyddol y Cristion bron â bod mor brin â phregethau ar uffern.” Wedi gweddïo, bu i'r gweinidogion gychwyn trafodaeth ynglŷn â'r modd i symud ymlaen yn y dyfodol. Eu hymrwymiad cyntaf oedd hyn: “Mae'r testun, er ei anawsterau, yn destun sydd yn rhy bwysig i'w anwybyddu. Rhaid i bob crediniwr efengylaidd ddod i'r un casgliad. Mae iachawdwriaeth yn troi o amgylch tynged y colledig. Os bydd i ni beidio edrych ar ganlyniadau gwrthod Iesu Grist, yna mi fyddwn ninnau mewn perygl o edrych dim ond ar fywyd cyflawn yn y byd hwn.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

1 Cor. 10:6–13; Heb. 2:1–4; 12:25–29

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut mae Duw yn ein rhybuddio o'i farn?
2. Sut allwn ni osgoi'r farn?

Gweddï

O Dad, rwy'n dechrau gweld yn fwy clir beth sy'n digwydd pan mae'r gwirionedd yn cael ei esgeuluso. Dyro i'r rhai sy'n pregethu dy Air yr hyder a'r eneniad i ddelio gyda'r mater hwn. Yn enw Iesu. Amen.